# TELERAU AC AMODAU PRESWYL

# 2020 - 2021

**TELERAU AC AMODAU PRESWYL**

Yn y Cytundeb Trwydded hwn ceir:

1. Y Telerau a'r Amodau Preswylio;
2. Taflen flaen y Cytundeb Trwydded; a
3. Rheoliadau'r Brifysgol

Mae'r Cytundeb Trwydded yn gontract sy'n rhwymo mewn cyfraith rhwng y Myfyriwr a'r Brifysgol a bydd yn weithredol o'r dyddiad y cewch chi'r allwedd ar gyfer eich llety pan fydd yn rhwymo mewn cyfraith. Ni fydd eich cyfnod preswyl yn dechrau tan Gyfnod y Drwydded fel y'i nodir ar daflen flaen y Cytundeb Trwydded. Os bydd y Myfyriwr yn torri ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb Trwydded hwn, mae gan y Brifysgol amrywiaeth o fesurau adfer (gan gynnwys o dan gyfraith sifil neu droseddol) a chaiff, o bosibl, derfynu'r Drwydded hon yn gynnar a/neu gymryd camau disgyblu (yn unol â'r darpariaethau a nodir isod).

Cyn ymrwymo wrth y Cytundeb Trwydded, dylai'r Myfyriwr ddarllen y Telerau a'r Amodau Preswylio, taflen flaen y Cytundeb Trwydded a Rheoliadau'r Brifysgol (sef gyda'i gilydd **"y Cytundeb Trwydded"**) i sicrhau eu bod nhw'n deall yn llawn y telerau, yr amodau a'r rhwymedigaethau sydd wrth waraidd y Cytundeb Trwydded.

## 1. DIFFINIADAU A RHAGARWEINIAD

1.1 Pa le bynnag y bydd y geiriau canlynol yn ymddangos yn y Telerau a'r Amodau Preswylio hyn, bydd rhaid eu dehongli (pan fo'r cyd-destun yn caniatáu hynny) yn y modd canlynol:-

| | |
|---|---|
| "Ystafell Wely Astudio" | Ystafell Wely Astudio Safonol (Arlwyo neu Hunanarlwyo) neu Ystafell Wely Astudio En-Suite (Arlwyo neu Hunanarlwyo) ar y Safle fel y'i cadarnheir ar daflen flaen y Cytundeb Trwydded |
| "Llety" | y Neuaddau Preswyl, boed yn Ystafell Wely Astudio neu Fannau Cyffredin yr adeilad. |
| "Yr Adran Llety" | y Swyddogion Llety ar Gampysau Abertawe a Llambed, a'r Rheolwr Llety ar Gampws Caerfyrddin |
| "Bond" | y swm o £250 i'w dalu wrth ddychwelyd taflen flaen y Cytundeb Trwydded wedi ei llofnodi, ac a gedwir yn unol ag amod 5 y Telerau ac Amodau Preswyl hyn. |
| "Rhannau Cyffredin" | y mannau hynny fel y'u dynodir o bryd i'w gilydd ac sy'n gyffredin i drigolion eraill, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i |

| | |
|---|---|
| | fannau cegin cyffredin a lolfeydd cyffredin a ddyrannwyd i'r Llety. |
| "Nadolig Caerfyrddin a Abertawe" | Y cyfnod rhwng 11 Rhagfyr 2020 a 4 Ionawr 2021. |
| "Nadolig Llambed" | Y cyfnod rhwnng 18 Rhagfyr 2020 a 4 Ionawr 2021. |
| "Y Pasg Caerfyrddin a Abertawe" | Y cyfnod rhwng 26 Mawrth 2021 a 19 Ebrill 2021. |
| "Y Pasg Llambed" | Y cyfnod rhwng 19 Mawrth 2021 a 7 Ebrill 2021.. |
| "Rheoliadau Tân" | Fel y'u cynhwysir yn y Canllaw Bywyd Preswyl |
| "Cytundeb Preswyl" | yw'r Telerau ac Amodau Preswyl, taflen flaen y Cytundeb Trwydded a Rheoliadau'r Brifysgol. |
| "Taflen flaen y Cytundeb Trwydded" | y ddogfen sy'n cyd-fynd â'r Telerau a'r Amodau Preswyl, gan nodi manylion y Llety a'r ffioedd taladwy ac a elwir yn daflen flaen y Cytundeb Trwydded. |
| "Cyfnod y Drwydded" | y cyfnod a ddiffiniwyd ac a nodir yn y Cytundeb Trwydded |
| "Ffi'r Drwydded" | y ffi ar gyfer y Llety a ddiffiniwyd ac a nodir yn y Cytundeb Trwydded sy'n cynnwys y Taliad Tymor y Nadolig, Taliad Tymor y Pasg a Thaliad Tymor yr haf. |
| "Diwrnodau Talu" | y diwrnodau talu fel y'u nodir yn y Cytundeb Trwydded megis Taliad Tymor y Nadolig, Taliad Tymor y Pasg a Thaliad Tymor yr haf. |
| "Adeiladau" | unrhyw neuadd breswyl neu adeilad neu floc arall lle mae'r Brifysgol yn darparu Llety ac sy'n cynnwys, y Llety a'r Rhannau Cyffredin, ond heb gyfyngiad i'r rhain yn unig,. |
| "Preswylydd" | chi, sef preswylydd y Llety o dan delerau'r Cytundeb Trwydded. |
| ."Myfyriwr" | un o fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sydd wedi eu cofrestru ar gwrs amser llawn neu ran-amser |
| "Telerau ac Amodau" | y telerau a'r amodau sydd wedi eu cynnwys yma. "Prifysgol" |
| | ni, sef Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. |
| "Rheoliadau'r Brifysgol" | sef:-<br>Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2019/20<br>SE1: Cod Ymddygiad Myfyrwyr<br>Polisi Disgyblu Myfyrwyr (Camymddwyn Anacademaidd)<br>Polisi Aflonyddu a Bwlio Myfyrwyr<br>Y Polisi Addasrwydd i Astudio<br>Y Polisi Addasrwydd i Ymarfer<br>Technoleg a Systemau Gwybodaeth: Polisi Defnydd Derbyniol |

ynghyd ag unrhyw amrywiadau

"Diwrnod Gwaith" y diwrnodau y mae staff gweinyddol y Brifysgol yn gweithio, sef pob dydd ac eithrio penwythnosau, Gwyliau Banc a rhai diwrnodau gŵyl cyhoeddus a dewisol, fel yr hysbysir.

1.2 Yn y Telerau a'r Amodau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

1.2.1 Bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb a bydd cyfeiriad at un ryw yn cynnwys cyfeiriad at bob rhyw;

1.2.2 Mae penawdau'r cymalau er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar strwythur pob adran.

1.2.3 Mae unrhyw ddogfennaeth, polisïau a gweithdrefnau sydd heb eu cynnwys yn y ddogfen hon wedi'u cynnwys ar fewnrwyd y Brifysgol.

## 2. DARPARU LLETY

2.1 Darperir llety dros Gyfnod y Drwydded sef yr wythnosau a nodir yn y Cytundeb Trwydded. Gellir ymestyn y Cytundeb Trwydded i ddarparu ar gyfer anghenion unigolion penodol, e.e. pobl sy'n gadael gofal, amrywiadau dyddiadau cwrs, ond mae unrhyw drefniant i'w wneud yn llawn yn ôl disgresiwn a chytundeb ysgrifenedig a mynegi'r gan y'r Adran Llety..

2.2 Rhaid i'r Preswylydd ufuddhau i'r Telerau a'r Amodau Preswylio bob amser.

2.3 Gall Preswylydd aros yn y neuaddau dros y Nadolig a'r Pasg. Ni wneir unrhyw ad-daliad Ffi Trwydded ar gyfer unrhyw gyfnod dros y Nadolig a'r Pasg (neu fel arall yn ystod Cyfnod y Drwydded) pan fydd y Llety'n parhau heb ei feddiannu.

2.4 Mae Ffi'r Drwydded yn daladwy ar gyfer holl Gyfnod y Drwydded:-

2.4.1 Nid oes gan unrhyw Breswylydd yr hawl i ddileu Ffi'r Drwydded, hyd yn oed os yw'r Preswylydd wedi gadael y Llety cyn diwedd Cyfnod y Drwydded. Os gall y myfyriwr ddod o hyd i ymgeisydd addas yn ei le, sy'n Fyfyriwr cofrestredig (a gymeradwyir gan y Brifysgol yn ôl ei disgresiwn ei hun) i feddiannu'r llety yn ei le, gallai'r Brifysgol hepgor Ffi'r Drwydded sy'n daladwy am weddill y cyfnod, o'r amser y bydd y preswylydd newydd yn symud i mewn i'r llety ac yn llofnodi Cytundeb Trwydded newydd, yn amodol ar dâl rhesymol i dalu'r costau gweinyddu go iawn sy'n gysylltiedig â pharatoi Cytundeb Trwydded newydd.

2.4.2 Rhaid i Ffi'r Drwydded barhau'n daladwy ar gyfer unrhyw adeg oddi mewn i Gyfnod y Drwydded pryd y bydd Preswylydd wedi ei wahardd o'r Brifysgol o dan Reoliadau'r Brifysgol. Bydd y Cytundeb Trwydded yn parhau nes iddo gael ei derfynu yn unol â chymal 16.1.4. Os terfynir y Cytundeb Trwydded am unrhyw reswm, rhaid i Ffi'r Drwydded barhau'n daladwy, neu nes i'r Brifysgol ddod o hyd i rywun arall i feddiannu'r Llety.

2.5 Ni chaniateir i'r Preswylydd drosglwyddo'r hawliau o dan y Cytundeb Trwydded na chaniatáu (yn amodol ar gymal 2.8) i unrhyw berson arall fyw yn y Llety neu ei rannu.

2.6 Caniateir defnyddio'r Llety at ddibenion preswylio preifat yn unig. Ni ddylid defnyddio'r Llety ar gyfer unrhyw ddefnydd na phwrpas busnes, gwleidyddol, anghyfreithlon neu anfoesol o gwbl.

2.7 Bydd pob Preswylydd yn rhannu'r Rhannau Cyffredin a chaiff y Preswylwyr feddiant anghyfyngedig ar y mannau hyn.

2.8 Gofynnir i fyfyrwyr sydd ag anabledd neu ofynion sy'n gysylltiedig â llety gysylltu â'r Gweinyddydd Gwasanaethau Anabledd yn y Brifysgol i drafod eu hanghenion a'u pryderon cyn cyrraedd neu ar unrhyw adeg yn ystod eu Cwrs. Mae'r GGA i'w gael yn y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr ar eich campws chi.

2.9 Mae gofyn i fyfyrwyr roi gwybod i'r Swyddfa Llety am unrhyw anabledd dros dro neu barhaol a allai effeithio arnynt, er mwyn gallu gwneud yr asesiad angenrheidiol ynghylch a oes angen unrhyw addasiadau ar y llety

2.10 Gall y Brifysgol ddyrannu unrhyw ystafelloedd gwag mewn fflat heb rybudd ymlaen llaw i ddeiliaid fflat.

## 3. FFI'R DRWYDDED

Mae gofyn i'r Preswylydd dalu Ffi'r Drwydded ar neu cyn y dyddiadau y mae'n ddyledus fel y'i nodir ar daflen y Cytundeb y Drwydded.

Ni fydd y Brifysgol yn ad-dalu unrhyw ran o Ffi'r Drwydded, oni bai fod darpariaeth ar gyfer hynny o dan gymal 15, 16.3.1 neu 16.3.2.

## 4. FFIOEDD HEB EU TALU

4.1 Caiff y Brifysgol derfynu'r Cytundeb Trwydded hwn yn unol â chymal 16.1.2 os na fydd y Preswylydd yn talu Ffi'r Drwydded erbyn y dyddiadau dyledus a nodir yn y Cytundeb Trwydded.

4.2 O dan Reoliadau'r Brifysgol, ni fydd y Brifysgol yn cynnig llety am gyfnod Preswylio pellach i Fyfyriwr sydd mewn dyled i'r Brifysgol. Mae hyn yn unol â'r Rheoliadau Ariannol Cyfrol 2 Trin a Rheoli Arian.

## 5. BONDIAU

5.1 Mae'r Preswylydd i dalu blaendal i'r Brifysgol ar ôl llofnodi a dychwelyd y Cytundeb Trwydded sy'n arwydd ei fod wedi derbyn ei delerau. Daw'r blaendal yn Fond ar ddecraur's Cytundeb Trydded.

5.2 Bydd y Brifysgol yn dal y Bond mewn cyfrif banc neu gymdeithas adeiladau lle telir llog.

5.3 Mae'r Bond i'w ad-dalu i'r Preswylydd ymhen 28 diwrnod gweithio fan bellaf ar ôl ddiwedd y Cyfnod y Drwydded.

5.4 Cyn ad-dalu'r Bond, caiff y Brifysgol wneud unrhyw ddirdyniadau rhesymol o'r Bond ac unrhyw log a enillwyd ar y Bond i dalu am y canlynol:

5.4.1 unrhyw Ffi Trwydded sydd heb ei thalu;

5.4.2 cost resymol adfer unrhyw un o rwymedigaethau'r Preswylydd o dan y Cytundeb Trwydded, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i ddifrod a achoswyd gan y Preswylydd i eiddo'r Brifysgol neu unrhyw angen i lanhau eiddo'r Brifysgol sy'n deillio o weithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd y Preswylydd (heblaw am niwed a achoswyd gan esgeulustod y Brifysgol neu ei staff) gan gynnwys cyfradd deg a rhesymol o'r costau hyn pan na ellir dweud pwy oedd yn gyfrifol (a bydd y Brifysgol yn gwneud ymdrech resymol i ddarganfod pwy oedd(ent) yn gyfrifol) a lle gall y Preswylydd brofi nad oedd y Preswylydd yn y Llety pan achoswyd y difrod, yn unol â Rheoliadau'r Brifysgol; ac

5.4.3 unrhyw swm cyfwerth â Ffi'r Drwydded, a gyfrifwyd fesul diwrnod, am ddefnydd a meddiant y Llety gan y Preswylydd os na fydd y Preswylydd yn gadael ar y dyddiad y dylai'r Preswylydd fod wedi gadael y Llety.

5.5 Ar gyfer y Preswylwyr hynny sy'n parhau yn Llety'r Brifysgol, trosglwyddir y Bond i'r cyfnod trwydded nesaf o dan y cytundeb trwydded hwnnw. Os na fydd y Preswylydd yn rhoi gwybod i'r Adran Llety na fydd yn dychwelyd i'r neuaddau y flwyddyn ganlynol erbyn 31 Awst 2021, a bod Cytundeb Trwydded wedi ei ddal ar gyfer Llety dros y cyfnod trwydded nesaf, nid ad-dalir y Bond o £250. Mae'n rhwymedigaeth ar y Preswylydd i sicrhau yr hysbysir yr Adran Llety na fydd angen eu Llety bellach.

5.6 Rhaid i'r Preswylydd dalu unrhyw anfonebau ymhen 14 niwrnod ar ôl derbyn yr anfoneb.

## 6. <u>AMODAU A DATGANIADAU</u>

Mae'r Brifysgol yn sefydliad addysgol penodedig yn ôl ystyr Deddf Tai 1988, Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 8 ac mae'r Preswylydd yn dilyn neu'n bwriadu dilyn cwrs astudio a ddarperir gan y Brifysgol. Er mwyn galluogi'r Preswylydd i wneud hynny mae'r Brifysgol yn darparu Llety ar gyfer y Preswylydd mewn Neuadd Breswyl. Hynny yw, nid oes gan y Cytundeb Trwydded yr amddiffyniad cyfreithiol a nodir yn Neddf Dai 1988, fel y'i diwygir sy'n golygu nad oes gennych chi unrhyw hawl meddiannaeth ar ôl diwedd Cyfnod y Drwydded

## 7. <u>CYFRAITH LYWODRAETHU A GORFODI</u>

7.1 Llywodraethir y Cytundeb Trwydded hwn o dan gyfraith Cymru a Lloegr. Golyga hyn y llywodraethir unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio oddi wrtho neu sy'n gysylltiedig ag ef o dan gyfraith Cymru a Lloegr.

7.2 Cytuna'r Preswylydd a'r Brifysgol y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth anghyfyngedig, ond os ydych yn preswylio yng Ngogledd Iwerddon cewch gychwyn camau cyfreithiol

yng Ngogledd Iwerddon, neu os ydych yn breswylydd yn yr Alban, cewch gychwyn camau cyfreithiol yn yr Alban.

7.3 Os ceir bod unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb Trwydded hwn yn anghyfreithlon, yn annilys neu'n anorfodadwy, ni effeithir ar gyfreithlonrwydd, dilysrwydd a gorfodadwyedd y Cytundeb hwn.

7.4 Mae hwn yn gontract rhwng y Preswylydd a'r Brifysgol. Golyga hynny na all neb orfodi unrhyw hawliau na rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Trwydded heblaw'r Preswylydd neu'r Brifysgol.

## 8. <u>AMODAU MEDDIANNAETH</u>

### 8.1 PERYGLON TÂN

8.1.1 Ni chaniateir i neb ysmygu neu anweddau yn yr Adeiladau, mae hyn yn cynnwys pob Rhan Gyffredin.

8.1.2 Ni chaniateir unrhyw ganhwyllau, arogldarth, llosgyddion olew ac unrhyw ddeunydd a chynwysyddion fflamadwy wedi yn unman yn yr Adeiladau.

### 8.2 <u>SYLWEDDAU CEMEGOL, CYFFURIAU AC ARFAU</u>

Ni ddylid mynd â sylweddau cemegol a allai fod yn beryglus, cyffuriau anghyfreithlon nac arfau i unrhyw Lety. Mae meddu ar gyffuriau, cyflenwi, defnyddio cyffuriau a/neu ddelio mewn cyffuriau, neu feddu ar arfau neu eu cyflenwi yn drosedd ac yn mynd yn groes i Reoliadau'r Brifysgol. Gweithredir polisi llym iawn yn erbyn cyffuriau yn yr Adeiladau ac yn y Brifysgol. Bydd unrhyw Breswylydd y ceir bod cyffuriau yn ei feddiant, neu yn defnyddio a/neu'n delio mewn cyffuriau a/neu ag eitemau yn ei feddiant sy'n gysylltiedig â chymryd cyffuriau neu ag arfau yn ei feddiant, yn cael ei ddisgyblu o dan Reoliadau a gweithdrefnau disgyblu'r Brifysgol a hefyd hysbysir yr Heddlu amdano.

### 8.3 <u>IECHYD A DIOGELWCH</u>

8.3.1 Rhaid i breswylwyr fod yn ymwybodol o'r Rheoliadau Tân a'r drefn wacáu. Gellir dod o hyd i hyn yn y Canllaw i Fywyd Preswyl. Rhaid cadw pob drws tân ar gau; ni ddylid byth ymyrryd ag offer tân (yn cynnwys larymau a synwyryddion mwg). **Rhaid rhoi gwybod i'r Swyddfa Llety os defnyddir unrhyw offer tân, am ba reswm bynnag.**

**Rhaid I drigolion symud allan o'r adeilad pan fydd y larwm tân yn swnio a gwneud eu ffordd i'r pwynt cynulliad**

**8.3.2** Codir tâl ar breswylwyr am unrhyw ddiffoddiaduron tân a ddefnyddir yn ddiangen, seliau wedi'u torri,neu am unrhyw ddifrod i unrhyw offer arall. Yn ogystal, o dan y Cytundeb Trwydded hwn a'r Rheoliadau Tân, mae ymyrryd ag unrhyw offer tân neu ddiogelwch yn drosedd ddifrifol a gall arwain at gamau o dan y Rheoliadau Tân (gellir dod o hyd i'r rhain yn y Canllaw ar Fywyd Preswyl). **Mae camddefnyddio neu ymyrryd ag unrhyw offer diogelwch tân yn drosedd gyfreithiol. Cyfrifoldeb y preswylydd yw hysbysu'r Tim Lleyt o unrhyw ddifrod i'r offer diogelwch tân**

8.3.3 Ni ddylid gadael prif ddrysau blociau, drysau fflatiau, drysau cegin neu drysau lolfa yn agored led y pen, oherwydd eu pwrpas yw lleihau risg tân a mwg.

8.3.4 Dylid cloi drysau gwely pan nad oes neb yn yr ystafell.

8.3.5 Ni ddylai Preswylwyr ddod â beiciau, beiciau modur / sgwteri nac unrhyw ran o gerbyd i mewn i'r Adeiladau. Mae hyn er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Tân. Mae standiau beiciau ar gael i Breswylwyr eu defnyddio.

8.3.6 Ni ddylid defnyddio socedi trydan lluosog na phlygiau lluosog yn y Llety, heb ganiatâd yr Adran Llety.

8.3.7 Heblaw'r hyn a ddarperir gan y Brifysgol, ni ddylid dod ag offer gwresogi neu goginio i unrhyw Lety neu Adeiladau ond gyda chaniatâd ysgrifenedig yr Adran Llety o flaen llaw (ni wrthodir caniatâd yn afresymol). Os canfyddir unrhyw eitemau yn ystod archwiliadau sydd heb dderbyn y caniatâd priodol, bydd rhaid eu symud ar unwaith. Yn dilyn cais i symud yr eitemau, os deuir o hyd iddynt unwaith eto, bydd yr Adran Llety'n symud yr eitemau ac yn cadw nes i'r Cytundeb Trwydded ddod i ben (oni bai fod y Myfyriwr yn gwneud cais am ddychwelyd yr eitemau hyn ac yn addo symud yr eitemau oddi ar y campws o fewn cyfnod amser y cytunir arno. Ni ddylid cadw na defnyddio tegell drydan a thostiwr yn yr Ystafell Wely Astudio. **Ni chaniateir ffrïo dwfn o gwbl unrhyw le yn yr Adeiladau (yn cynnwys y ceginau).** Ni chaniateir coginio yn yr Ystafell Wely Astudio.

8.3.8 Mae gan drigolion ddyletswydd i fod yn ystyriol o ddiogelwch eraill y gallai fod angen iddynt fynd i mewn i'r Llety a'r Adeiladau. Rhaid i Breswylwyr sicrhau nad ydynt yn gwneud unrhyw beth a allai wneud niwed i unrhyw berson arall sy'n dod i mewn i'r Llety neu'r Adeiladau (er enghraifft, peryglon baglu, peryglon trydanol).

8.3.9 Ni chaniateir defnyddio barbeciw ond ar ôl sicrhau yn gyntaf gydsyniad ysgrifenedig yr Adran Llety. Ni ddylai'r Preswylydd ddefnyddio Barbeciw ond yn y maes a ddynodwyd yn benodol i'w defnyddio (ar gyfarwyddyd yr Adran Llety), ac yn unol â'r cyfarwyddiadau rhesymol a osodwyd gan yr Adran Llety a'r Brifysgol.

## 8.4 <u>RHOI GWYBOD AM NAMAU</u>

Cyfrifoldeb y myfyrwyr yw rhoi gwybod am broblemau cynnal a chadw trwy'r dull adrodd perthnasol sydd i'w weld yn "MyDay" – ar deil "Property Services Helpdesk". Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod, cost neu anghyfleustra a achosir gan unrhyw oedi cyn rhoi gwybod am ddiffygion o'r fath.

## 8.5 <u>IAWNDAL</u>

Bydd gofyn i Breswylwyr dalu cost resymol unrhyw golled, lladrad neu ddifrod i eiddo'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys holl eiddo'r Brifysgol a rennir gyda Phreswylwyr eraill lle na ellir, drwy ymdrechu'n rhesymol, briodoli'r difrod, y golled neu'r lladrad i unrhyw Breswylydd arbennig, (pan fydd y Brifysgol wedi cynnal ymchwiliadau rhesymol), oni bai fod y Preswylydd yn gallu profi nad oedd yn y Llety ar yr adeg yr achoswyd y golled, y lladrad neu'r difrod.

Bydd unrhyw ladrad neu golled i eiddo'r Brifysgol neu ddifrod a achoswyd i'r Llety neu'r Rhannau Cyffredin (heblaw traul dderbyniol), na ellir ei briodoli i Breswylydd arbennig, (pan fydd y Brifysgol wedi cynnal ymchwiliadau rhesymol) yn cael ei rhannu'n gyfartal rhwng y Preswylwyr sydd ag allwedd i'r rhan honno o'r Adeiladau, neu'r Llety dan sylw (oni bai fod y Preswylydd yn gallu profi nad oedd yn y Llety ar yr adeg yr achoswyd y golled, y lladrad neu'r difrod). Codir unrhyw daliadau yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol.

Rhoddir rhestr o’r taliadau safonol oddi mewn i Atodlen 1.

## 8.6 SŴN

Yn ôl disgresiwn rhesymol yr Adran Llety, gellid ystyried bod lefelau sŵn sy’n glywadwy y tu allan i’r Llety ac sy’n achosi niwsans yn torri’r Telerau a’r Amodau Preswyl hyn. Caniateir i breswylwyr ddod â’u radios eu hunain, chwaraewyr CDs, cyfrifiaduron personol ac offerynnau cerdd (ac eithrio offer drymiau a phianos) i’r Llety, ond tynnir y caniatâd hwn yn ôl ar unwaith yn achos unrhyw Breswylydd sy’n achosi sŵn neu anghyfleustra i eraill. Dylid sicrhau cyn lleied o sŵn ag y bo modd, yn arbennig rhwng 11.00p.m. a 8.00a.m.

Rhaid i breswylwyr fod yn ystyriol o eraill sy’n byw mewn neuaddau a pheidio â gweiddi, gwneud neu achosi synau uchel ac aflonyddgar tra byddant yn byw ar y campws.

Er mwyn dileu amheuaeth, mae’r Rheoliadau ar sŵn yn berthnasol nid yn unig o fewn y Llety, ond hefyd oddi mewn i’r Adeiladau ac yn yr ardaloedd oddi amgylch.

## 8.7 YMDDYGIAD

8.7.1 Rhaid i bob Preswylydd fod yn ystyriol o bob cymydog a chyd-breswylydd a’u mwynhad o’r Llety. Ni oddefir ymddygiad gwrthgymdeithasol.

8.7.2 Rhaid i Breswylwyr ddilyn cyfarwyddiadau priodol a roddir gan unrhyw aelodau o Staff y Brifysgol a Wardeniaid Neuaddau sydd ar ddyletswydd, ac sydd yn nodi pwy ydynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir mewn achos o dân neu unrhyw argyfwng, ond mae’n cynnwys cyfarwyddiadau rhesymol a roddir gyda’r bwriad o gael Preswylwyr i dawelu neu i gydymffurfio mewn unrhyw fater arall yn ymwneud ag ymddygiad.

8.7.3 Yn achos unrhyw Breswylydd sydd ym marn resymol y Brifysgol yn euog o gamymddwyn, gellir, yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill, hysbysu awdurdodau’r Brifysgol amdano a chychwyn gweithdrefnau disgyblu’r Brifysgol yn ei erbyn. Heb amharu ar yr hyn a nodwyd yn flaenorol, bydd camymddygiad yn cynnwys torri’r Amodau a’r Telerau Preswylio hyn neu Reoliadau’r Brifysgol-. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw ymddygiad anghydnaws wedi’i gyfyngu o reidrwydd i ymddygiad o fewn y Llety neu’r Rhannau Cyffredin, ond gallai gynnwys ymddygiad ar dir y Brifysgol neu fannau eraill, yr ystyrir ei fod yn anghydnaws â phreswylio mewn neuadd breswyl.

## 8.8 ANIFEILIAID ANWES

Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid o unrhyw fath yn unrhyw le yn y Preswylfeydd na'r tiroedd.

## 8.9 LLWYBRYDDION WI-FI

Ni ddylai’r trigolion ddod â’u llwybryddion wi-fi eu hunain i neuaddau, ac ni ddyletn ymrwymo i gontract wi-fi gyda darparwr allanol.

**8.10 PROFI POS (PAT)**

Rhaid I fyfyrwyr sicrhau bod unrhyw gyfarpar trydanol y meant yn ei ddod I neuaddau wedi pasio'r Prawf Offer Symudol yn ddiweddar.

8.11 **RHESTR EIDDO YSTAFELL**

8.11.1 Ymhen 7 diwrnod gwaith ar ôl derbyn allwedd ystafell rhaid i'r Preswylydd lofnodi a dychwelyd i'r Adran Llety restr eiddo o holl eiddo a chyfleusterau'r Brifysgol yn ei Lety (gan gynnwys eiddo a chyfleusterau a rennir ac sydd i'w cael yn yr Adeiladau y mae gan y Preswylydd allwedd iddynt). Ar ddiwedd Cyfnod y Drwydded, bydd pob Preswylydd yn gyfrifol am sicrhau bod pob eitem a nodwyd ar ei r(h)estr eiddo yn parhau yn yr Adeiladau.

8.11.2 Bydd y Brifysgol yn llunio rhestr eiddo derfynol pan fydd preswylwyr yn gadael y neuaddau preswyl. Os bydd unrhyw ddifrod i unrhyw eiddo neu gyfleusterau neu unrhyw golledion neu bethau wedi'u dwyn, codir tâl ar bob Preswylydd sydd ag allwedd i'r rhan honno o'r Adeiladau neu'r Llety, fel y bo'n briodol.

8.11.3 Rhaid i'r Preswylydd beidio â symud eiddo'r Brifysgol o unrhyw Lety na chaniatáu i hynny ddigwydd nac ychwaith symud eiddo'r Brifysgol o unrhyw Rannau Cyffredin yn yr Adeiladau.

8.11.4 Ar ddiwedd pob Cyfnod Trwydded rhaid i'r Preswylydd adael y Llety a'r Adeiladau a symud ei holl eiddo personol oddi yno gan adael yr ystafell a'r gegin mewn cyflwr glân a thaclus a sicrhau bod holl eiddo'r Brifysgol yn cael ei adael yn y Llety a'r Adeiladau (yn cynnwys holl osodiadau a ffitiadau'r Brifysgol ac eitemau'r Brifysgol a rannwyd â Phreswylwyr eraill).

8.11.5 Ni chaniateir mynd â chelfi, cyfarpar nac eiddo personol arall mawr (yn cynnwys nwyddau gwyn megis oergelloedd, rhewgelloedd, peiriannau golchi ac ati) i mewn i'r Llety na'r Adeiladau.

8.11.6 Caiff y Brifysgol symud unrhyw gelficyn, offer neu eiddo arall nas caniateir yn ôl y Telerau a'r Amodau Preswylio hyn. Mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw eitemau sydd, ym marn resymol y Brifysgol, yn berygl i'r Preswylydd, neu i breswylwyr eraill. Ni chaiff yr eitemau hyn eu dychwelyd nes i'r perchennog wneud trefniadau i'w symud o'r Adeiladau.

8.11.7 Ni ddylai Preswylydd adael gydag unrhyw eitem yn y Llety neu'r Adeiladau a ddarparwyd gan y Brifysgol i unrhyw drydydd parti.

8.11.8 Rhaid i Breswylwyr beidio â newid nac atgyweirio'r Adeiladau na'r Llety na'r adeiledd, y ffabrig, y celfi, yr offer na'r ffitiadau. Gwaherddir yn llwyr ddefnyddio unrhyw ran o'r Llety neu'r Adeiladau ar gyfer gweithgareddau gweithdy (rhaid eu cyfyngu i weithdai'r Brifysgol yn unig).

8.11.9 Rhaid gosod posteri ar yr Hysbysfyrddau'n unig - os gosodir posteri ar y waliau gan achosi difrod i'r peintwaith bydd gofyn i'r Preswylydd dalu cost resymol ailaddurno'r Llety neu'r Adeiladau a ddifrodwyd, fel y bo'n briodol.

8.12 **GWESTEION**

Rhaid i westeion fewngofnodi trwy anfon neges destun at ffôn symudol y tîm diogelwch gan ddarparu'r manylion canlynol: -

Enw a Rhif y myfyriwr
Manylion yr Ystafell
Enw'r Gwestai
Hyd Arhosiad

Dim ond un gwestai i bob myfyriwr oedd yn cyfyngu 2 noson yr wythnos a dim mwy na 6 ymweliad y tymor.

Rhaid i westeion fod dros eu 18 oed.

Y Preswylwyr sy'n gyfrifol am ymddygiad eu gwesteion bob amser. Ystyrir camymddwyn (gan gynnwys dwyn) gan westai a/neu ymwelydd yn achos torri'r Telerau a'r Amodau Preswylio gan y Preswylydd yr ymwelir ag ef.

Rhaid i'r Preswylydd sy'n croesawu gydymffurfio â'r gofynion uchod wrth dderbyn gwesteion ar bob achlysur.

**8.13 PARCIO CEIR**

Rhaid i fyfyrwyr preswyl forestru eu ceir ar neu cyn y Diwrnod Cofrestru. Rhaid talu unrhyw ffioedd parcio sy'n ddyledus cyn neu ar ddiwrnod cofrestru.

Mae'r Brifysol yn cadw'r hawl i beidio â darparu cyfleusterau parcio i fyfyrwyr preswyl, neu i ddarparu cyfleusterau oddi ar y campws ar gyfer parcio i fyfyrwyr preswyl. Gellir neilltuo parthau parcio i fyfyrwyr preswyl y ôl y gyfleusterau parcio ceir gan fyfyrwyr sydd yn torri rheoliadau parcio ceir yn barhaous.

**9. GLANHAU A CHYNNAL A CHADW**

9.1 Rhaid i'r holl Breswylwyr lanhau a thacluso eu Llety a rhannu'r cyfrifoldeb dros gadw Rhannau Cyffredin yr Adeiladau yn lân a thaclus.

9.2 Heb dorri unrhyw gymal arall, gall unrhyw Breswylydd neu Breswylwyr sydd, yn gyson, yn dewis gadael eu Llety a/neu Rannau Cyffredin yr Adeiladau mewn cyflwr budr, anhylan neu anniben wynebu camau disgyblu fel y'u nodir yn SE1 – Cod Ymddygiad Myfyrwyr.

9.3 Ceidw'r Brifysgol yr hawl i fynd â llestri, offer neu gyfarpar coginio brwnt arall sy'n eiddo i'r Brifysgol neu'r Preswylwyr i'w gwaredu a chodi tâl rhesymol am eu glanhau.

9.4 Os bydd rhaid i'r staff wneud gwaith glanhau ychwanegol pan fo Preswylwyr yn methu â glanhau a thacluso eu Llety, neu rannau cyffredin yr Adeiladau, codir tâl fel y nodir yn Atodlen 1 ar y sawl y gellir priodoli'r cyfrifoldeb iddo/i neu ymhlith y Preswylwyr os na ellir priodoli cyfrifoldeb (ar ôl i'r Brifysgol gynnal ymchwiliadau rhesymol).

9.5 Os bydd y Brifysgol yn darganfod, yn ystod ymweliadau arferol neu ymchwiliadau, na chyflawnwyd y cyfrifoldebau hyn yn iawn, wedyn yn ôl disgresiwn yr Adran Llety, ceir rhoi

rhybudd i'r rhai a fernir yn gyfrifol am gywiro'r sefyllfa. Os na chydymffurfir â'r rhybudd, bydd y Brifysgol yn glanhau'r Llety a/neu'r mannau cyffredin perthnasol yn yr Adeiladau a chodir tâl fel y nodir yn Atodlen 1 ar y sawl y bernir eu bod yn gyfrifol.

Ni roddir rhybudd os yw'r Adran Llety o'r farn fod y sefyllfa'n berygl sylweddol neu ddifrifol i Iechyd a Diogelwch.

## 10. HAWL MYNEDIAD

Oni bai y nodir fel arall, rhaid i unrhyw hawliau mynediad a ganiateir o dan adegau rhesymol a bydd y Brifysgol yn ceisio creu cyn lleied o aflonyddwch ag y bo modd heb amharu'n afresymol ar breifatrwydd y Preswylydd.

Bydd staff diogelwch yn mynd i mewn i fannau cymunedol llety yn wythnosol i wirio offer tân, golau argyfwng a glendid ardaloedd.

### Hawl mynediad pan fo angen rhybudd

10.1 Yn amodol ar gymal 10.2 isod, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gael mynediad a mynd i mewn i'r Llety a'r Rhannau Cyffredin, gydag ymwelwyr awdurdodedig (pan fo'n briodol) o dan yr amgylchiadau canlynol a hynny ar ôl rhoi o leiaf 24 awr o rybudd ysgrifenedig:

10.1.1 gydag ymwelwyr awdurdodedig;

10.1.2 glanhau, archwilio a/neu drwsio'r eiddo;

10.1.3 er mwyn adfer eiddo'r Brifysgol; a/neu

10.1.4 o dan amgylchiadau eraill sy'n rhesymol ym marn y Brifysgol, neu lle mae gan y Brifysgol reswm digonol dros amau bod unrhyw un o delerau'r Cytundeb Trwydded wedi ei dorri.

Gwneir pob cais i gael mynediad a mynd i mewn i'r Llety a'r rhannau cyffredin trwy neges e-bost a rhybudd ysgrifenedig yn y Llety. Yn y rhybudd hwnnw, bydd y Brifysgol yn datgan amser, dyddiad a diben yr ymweliad.

10.2 [Mae hawl gan bob preswylydd i wrthwynebu cais am fynediad a mynd i mewn i'r Llety yn unol â Pholisi'r Brifysgol ar Fynediad i Lety Preswyl Myfyrwyr. Ystyrir y ceisiadau hyn yn unol â pholisi'r Brifysgol a chadarnheir a fydd angen mynediad, ar ôl ystyried yn ofalus reswm y Preswylydd dros wrthwynebu, i'r Preswylwyr dan sylw ymhen 24 awr cyn y bydd angen mynediad.]

### Yr hawl i fynediad yn dilyn cais am waith atgyweirio

10.3 Os rhowch wybod i'r Brifysgol fod angen gwaith atgyweirio yn y Llety, mae gan y Brifysgol yr hawl i fynd i mewn i'r Llety i archwilio a/neu gyflawni'r gwaith atgyweirio ar adegau rhesymol o'r dydd heb roi rhybudd ymlaen llaw i'r Preswylydd am ei ymweliad oni bai, wrth roi gwybod am y gwaith atgyweirio, bod y Preswylydd yn gofyn i'r Brifysgol roi rhybudd ymlaen llaw iddo/i yn ôl 10.2 uchod.

10.4 Os nad yw'r Preswylydd yn y Llety pan fydd y Brifysgol yn galw ar ymweliad a drefnwyd ymlaen llaw neu sy'n codi o ganlyniad i waith atgyweirio y rhoddwyd gwybod amdano, neu yn achos argyfwng, caiff y Brifysgol fynd i mewn i'r Llety trwy ddefnyddio'r prif allweddi, oni bai fod y Preswylydd wedi rhoi gwybod ymlaen llaw i'r Adran Llety a chynnig trefniad rhesymol arall.

**Yr hawl i fynediad mewn argyfwng neu amheuaeth o dorri amodau't Telerau ac Amodau Preswyl**

10.5 Mewn argyfwng neu amheuaeth o dori'r Teleru ac Amodau Preswyl, gall y Brifysgol gael mynediad heb rybudd. Yn yr achos hwn, bydd y Brifysgol yn sicrhau'r Llety ac yn trwsio unrhyw ddifrod o ganlyniad i fynediad a orfodwyd. Os bydd rhaid i'r Brifysgol orfodi mynediad am fod y Preswylydd yn esgeuluso neu'n camddefnyddio'r Llety neu fod y Preswylydd heb roi gwybod am waith atgyweirio, bydd y Brifysgol yn codi tâl rhesymol ar y Myfyriwr am yr angen i orfodi mynediad ac atgyweirio unrhyw ddifrod cysylltiedig.

## 11. TROSGLWYDDO YSTAFELLOEDD AR GAIS Y PRESWYLYDD

11.1 Rhaid i unrhyw breswylydd sy'n dymuno cyfnewid ystafell neu symud i ystafell arall (os oes un ar gael) gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Adran Llety. Codir tâl o £25.00 i dalu am gostau'r Brifysgol er mwyn glanhau'r Llety.

11.2 Ni chaniateir trosglwyddo i lety arall a ddarperir gan y Brifysgol os yw'r Preswylydd mewn dyled o ran Ffi'r Drwydded.

11.3 Cyn i Breswylwyr gyfnewid Llety rhaid cael caniatâd ysgrifenedig yr Adran Llety ymlaen llaw

## 12. HAWL Y BRIFYSGOL I OFYN AM DROSGLWYDDO YSTAFELL

12.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i drosglwyddo'r Preswylydd i lety addas arall am resymau rheoli rhesymol sy'n cynnwys (ond heb eu cyfyngu i'r canlynol):

12.1.1 os bydd y Brifysgol o'r farn na fydd yn rhesymol bosibl iddi gyflawni'r gwaith sydd ei angen yn y Llety, yr Adeiladau neu'r eiddo oddi amgylch (boed yn waith atgyweirio neu'n welliannau) tra bydd y Preswylydd, ac unrhyw un sy'n byw gyda'r Preswylydd yn parhau yn y Llety;

12.1.2 pan fydd y Llety a/neu'r Adeiladau wedi eu difrodi neu wedi cael effeithiau andwyol eraill, nes bod y Brifysgol (gan weithredu'n rhesymol) yn ystyried nad oes modd byw ynddynt (er enghraifft, oherwydd llif, pla, storm, difrod, diffyg mewn gweithfa); neu

12.1.3 pan fydd Cyfnod y Drwydded yn cynnwys gwyliau'r Nadolig, Pasg a/neu'r haf ac nad oes meddiannaeth lawn ar yr Adeiladau dros y gwyliau a bod y Brifysgol yn penderfynu (gan weithredu'n rhesymol) symud y Preswylydd i lety Prifysgol arall er mwyn i'r holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Brifysgol fod gyda'i gilydd yn yr un rhan o'r Brifysgol dros y gwyliau am resymau diogelwch; neu

12.2 os ym marn resymol y Brifysgol, y bydd gofyn gwneud hynny i ddiogelu llesiant Preswylydd a/neu lesiant eraill a/neu atal difrod i'r Llety a / neu'r Adeiladau.

12.3 Os bydd angen i'r Brifysgol drosglwyddo'r Preswylydd:

12.3.1 byddant yn rhoi, pan fo'n bosibl, rybudd rhesymol ysgrifenedig i'r Preswylydd ynghylch hyn ynghyd â manylion y llety tebyg arall y bydd yn symud iddo. Bydd y Brifysgol hefyd yn rhoi gwybod i'r Preswylydd am y dyddiad y bydd angen i'r Preswylydd symud i lety arall tebyg a bydd y Brifysgol yn rhoi rhybudd rhesymol i'r Preswylydd am y dyddiad hwn (gan gymryd i ystyriaeth yr amgylchiadau).

12.3.2 bydd y llety addas arall yn rhesymol gyfwerth â'r Llety a nodir ar daflen flaen y Cytundeb Trwydded (cyhyd ag y bo ar gael);

12.3.3 os bydd y ffioedd am lety arall yn uwch na Ffi’r Drwydded, bydd y Brifysgol yn parhau i godi’r Ffi Trwydded wreiddiol ar y Preswylydd;

12.3.4 os yw'r ffioedd ar gyfer y llety amgen yn llai na Ffi’r Drwydded, bydd y Brifysgol yn codi ffioedd llai ar y Preswylydd o’r dyddiad y bydd yn symud i’r llety arall;

12.3.5 os nad yw’r llety arall yn foddhaol i’r Preswylydd (gan weithio’n rhesymol) mae ganddynt yr hawl i derfynu’r Cytundeb hwn;

12.3.6 os bydd y Myfyriwr yn gallu cyflwyno, i fodlonrwydd rhesymol y Brifysgol, dderbynneb ddilys, bydd y Brifysgol yn talu unrhyw gostau teithio parod, a ddaw i ran y Preswylydd wrth symud i lety tebyg arall ar gais y Brifysgol.

12.4 Rhaid i’r Preswylydd adael y Llety a dychwelyd yr allweddi ynghylch y Llety a’r Adeiladau erbyn dyddiad darfod unrhyw rybudd a roddwyd o dan y cymal hwn.

12.5 Os na symudwch allan o’r Llety ar ein cais ni i wneud hynny yn unol â’n hawliau ni, gallwn gymryd camau cyfreithiol i’ch gorfodi chi i symud allan. Os bydd rhaid i ni gymryd camau cyfreithiol, byddwn yn gofyn i’r llys am orchymyn mai’r Preswylydd fydd yn talu cost y camau cyfreithiol.

## 13. YR HAWL I WAHARDD DROS DRO EICH HAWL I FEDDIANNU

13.1 Yn ogystal â’n hawl ni i ddod â’r Cytundeb Trwydded hwn i ben yn dilyn cymal 16, rydym yn cadw’r hawl, a hynny yn llwyr yn ôl disgresiwn y Brifysgol, i wahardd y Cytundeb hwn (yn hytrach na’i derfynu) ar ôl rhoi pedair wythnos o rybudd a gofyn i chi adael y llety ar unwaith pan fydd y rhybudd wedi dod i ben, os torrir eich rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn (sy’n cynnwys eich gwahardd o’r Brifysgol am dorri rheoliadau’r Brifysgol) neu os oes gennym amheuon rhesymol eich bod wedi torri eich rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn.

13.2 Bydd y Brifysgol yn gwahardd y Cytundeb hwn yn unol â chymal 14.1 yn unig os, ym marn resymol y Brifysgol, rydych chi neu eich gwesteion gwadd:

13.2.1 yn creu risg neu fygythiad i’ch iechyd, eich diogelwch a/neu eich lles eich hun, preswylwyr eraill, staff y Brifysgol a/neu unrhyw berson arall a/neu fygythiad i enw da’r Brifysgol; a/neu

13.2.2 yn wrthrychau unrhyw ymchwiliadau troseddol (pa un ai a ydych wedi eich arestio ai peidio a pha un ai a ydynt wedi dod i ben ai peidio); a/neu

13.2.3 yn achosi niwed troseddol i unrhyw ran o eiddo'r Brifysgol, preswylwyr eraill, staff y Brifysgol a/neu unrhyw berson arall.

Gwneir unrhyw benderfyniad i’ch gwahardd yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn Rheoliadau’r Brifysgol a bydd yn amodol ar eich hawl i apelio yn erbyn y gwaharddiad hwnnw fel y’i nodir yn y Rheoliadau. I ddileu amheuaeth, ni chaniateir i chi feddiannu’r Llety nes bod unrhyw gamau disgyblu o dan weithdrefn ddisgyblu’r Brifysgol a/neu drafodion troseddol (gan gynnwys ymchwiliadau) wedi dod i ben ac ar sail canfyddiadau’r trafodion hynny.

## 14. Y PRESWYLYDD YN TERFYNU'R CYTUNDEB TRWYDDED

14.1 Caniateir i'r Preswylydd, ar ôl rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r Brifysgol derfynu'r Cytundeb Trwydded cyn diwedd Cyfnod y Drwydded, o dan yr amgylchiadau canlynol:

14.1.1 mae'r Brifysgol wedi torri telerau'r Cytundeb Trwydded;

14.1.2 mae'r Preswylydd yn gwrthod trosglwyddo i lety arall addas yn unol â chymal 12; a/neu

14.1.3 Gall y Preswylydd ddod o hyd i fyfyriwr addas yn ei le sydd, yn ôl unig ddisgresiwn y Brifysgol, yn dderbyniol i'r Brifysgol (gan weithredu'n rhesymol) ac nad yw eisoes yn byw yn yr Adeiladau i lofnodi cytundeb newydd â'r Brifysgol am weddill Cyfnod y Drwydded.

14.2 Ar ôl i'r Preswylydd derfynu'r Cytundeb Trwydded o dan yr amgylchiadau a nodir yng nghymal 14.1, bydd y darpariaethau canlynol yn berthnasol:

14.2.1 ar ôl terfynu yn unol â chymal 15.1.1, ni fydd rhaid i'r Preswylydd dalu unrhyw gyfran o Ffi'r Drwydded sy'n ddyledus ynghylch unrhyw gyfnod ar ôl dyddiad darfod

y rhybudd ysgrifenedig a roddwyd yn unol â chymal 15.1 (ar yr amod bod y Preswylydd wedi gadael y Llety ar ôl dyddiad darfod y rhybudd);

14.2.2 ar ôl terfynu yn unol â chymal 15.1.2, ni fydd rhaid i'r Preswylydd dalu unrhyw gyfran o Ffi'r Drwydded sy'n ddyledus ynghylch unrhyw gyfnod ar ôl i'r Brifysgol ofyn i'r Preswylydd adael y Llety. O dan amgylchiadau lle talwyd Ffi'r Drwydded ymlaen llaw, bydd ad-daliad pro rata yn daladwy yn ddi-oed; ac

14.2.3 ar ôl terfynu yn unol â chymal 15.1.3, ni fydd gofyn i'r Preswylydd dalu Ffi'r Drwydded am weddill Cyfnod y Drwydded o'r amser y bydd y Myfyriwr addas yn ei le yn symud i mewn i'r Llety ac yn llofnodi cytundeb rhwymedigol â'r Brifysgol, yn amodol ar dâl rhesymol i dalu'r costau gweinyddol go iawn sy'n gysylltiedig â pharatoi cytundeb trwydded newydd.

## 15. TREFNIADAU SY'N DERBYN AR GYFER GOHIRIO, ALLDYNIAD NEU DADFEDDIANT

Bydd yn rhaid i fyfyriwr sydd wedi caen ei gohirio neu alldyniad o'u hastudiaethau, neu sydd wedi ca lei dadfeddiannu o'u neuaddau preswyl adel llety'r Brifysgol yn effeithiol o'r Dyddiad gohirio / alldyniad / dadfeddiannu. Yn yr achosion hyn bydd y myfyriwr yn cael ei gyhuddo hyd at ddechrau'r tymor yn dilyn eu dyddiad gohirio / alldyniad / dadfeddiannu, neu ar ôl dychwelyd allwedd ystafell I'r Swyddfa Llety, p'un bynnag yw'r diweddaraf. Bydd unrhyw incwm a dderbynnir gan y Brifysgol sy'n fwy na'r swm hwn yn cael ei ad-dalu I'r myfyriwr os nad oes unrhyw ddyledion eraill i'r Brifysgol.

Myfyriwr i gyflenwi cadarnhad ysgrifenedig o'r Gofrestrfa i dynnu'r cytundeb gohirio yn ôl.

Yn yr amgylchiadau hyn mae ffi derfynu'n daladwy, y taliadau fydd: -

- £600 pe bai'r dyddiad tynnu'n ôl yn disgyn o fewn pymtheg wythnos lawn gyntaf Cyfnod y Drwydded;

- £450 pe bai'r dyddiad tynnu'n ôl yn disgyn rhwng pymthegfed wythnos a degfed wythnos ar hugain Cyfnod y Drwydded;

- £300 pe bai'r dyddiad tynnu'n ôl yn disgyn ar ôl degfed wythnos ar hugain Cyfnod y Drwydded.

## 16. Y BRIFYSGOL YN TERFYNU'R CYTUNDEB TRWYDDED

16.1 Caiff y Brifysgol derfynu'r Cytundeb ar unrhyw adeg ar ôl rhoi i'r Preswylydd o leiaf bedair wythnos o rybudd ysgrifenedig os:

16.1.1 peidia'r Preswylydd â bod yn Fyfyriwr (boed yn wirfoddol ai peidio), terfynir contract myfyriwr y Preswylydd a / neu os nad yw'r Preswylydd yn dechrau nac yn dilyn cwrs astudio yn y Brifysgol (gan gynnwys gohirio astudiaethau ar gais y Preswylydd).

16.1.2 os ar unrhyw adeg mae Ffi'r Drwydded neu unrhyw daliadau dyledus eraill gan y Preswylydd 21 diwrnod yn hwyr.

16.1.3 mae'r Preswylydd wedi torri'r rheolau sy'n cynnwys torri'n gyson ac yn barhaus unrhyw un o'r Telerau a'r amodau Preswylio hyn.

16.1.4 mae'r Preswylydd wedi torri Rheoliadau'r Brifysgol ac o'r herwydd wedi ei wahardd o'r Brifysgol.

16.1.5 ym marn resymol y Brifysgol, mae'r Preswylydd neu ei (g)westeion yn creu risg neu fygythiad i iechyd, diogelwch a/neu les y Preswylydd, preswylwyr eraill, staff y Brifysgol a/neu unrhyw berson arall a/neu fygythiad i enw da'r Brifysgol; a/neu

16.1.6 mae'r Preswylydd yn wrthrych unrhyw ymchwiliadau troseddol (pa un ai a ydych wedi eich arestio ai peidio a pha un ai a ydynt wedi dod i ben ai peidio); a/neu

16.1.7 mae'r Preswylydd neu ei (g)westeion yn achosi niwed troseddol i unrhyw ran o eiddo'r Brifysgol, preswylwyr eraill, staff y Brifysgol a/neu unrhyw berson arall;

16.1.8 ni all y Brifysgol (am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth) barhau i ddarparu Llety i'r Preswylydd os nad yw'r Llety'n addas i'r Preswylydd o ystyried amgylchiadau'r Preswylydd.

16.2 Bydd y Cytundeb hwn yn dod i ben pan fydd rhybudd y Brifysgol i'r Preswylydd yn dod i ben. Ni chaiff terfynu'r Cytundeb hwn effeithio ar hawl y Brifysgol ynghylch torri unrhyw rwymedigaeth o dan y Cytundeb hwn a oedd yn bodoli ar ddyddiad y terfynu neu cyn hynny.

16.3 Ar ôl i'r Brifysgol derfynu'r Cytundeb Trwydded o dan yr amgylchiadau a nodir yng nghymal 16.1, bydd y darpariaethau canlynol yn berthnasol:

16.3.1 Yn amodol ar gymal 16.4, ar ôl terfynu yn unol â chymalau 16.1.1, 16.1.2, 16.1.3, 16.1.4, 16.1.5, 16.1.6 neu 16.1.7, rhaid i'r Preswylydd dalu Ffi'r Drwydded hyd at ddechrau'r tymor ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn neu ar ôl dychwelyd allweddi'r ystafell i'r Adran Llety, pa un bynnag sydd hwyraf. Bydd unrhyw incwm a dderbynnir gan y Brifysgol uwchlaw'r swm hwn yn cael ei ad-dalu i'r Preswylydd os nad oes unrhyw symiau dyledus eraill gan y Preswylydd i'r Brifysgol;

16.3.2 ar ôl terfynu yn unol â chymal 16.1.8, ni fydd rhaid i'r Preswylydd dalu unrhyw gyfran o Ffi'r Drwydded sy'n ddyledus ynghylch unrhyw gyfnod ar ôl i'r Preswylydd orfod gadael y Llety. O dan amgylchiadau lle talwyd Ffi'r Drwydded ymlaen llaw, bydd ad-daliad pro rata yn daladwy yn ddi-oed.

16.4 bydd y Brifysgol yn lleihau cyfradd Ffi'r Drwydded sy'n daladwy yn unol â chymal 16.3.1 uchod os bydd y Brifysgol yn gallu darganfod myfyriwr addas yn ei le i symud i mewn i'r Llety ac yn llofnodi cytundeb rhwymedigol â'r Brifysgol (yn amodol ar dâl rhesymol i dalu'r costau gweinyddol go iawn sy'n gysylltiedig â pharatoi Cytundeb Trwydded newydd). Bydd lleihad yn Ffi'r Drwydded sy'n daladwy yn cyfateb i'r arian y gall y Brifysgol ei sicrhau gan y myfyriwr addas hwn yn ei le.

16.3 Ar ôl terfynu Cytundeb y Drwydded am unrhyw reswm a gynhwysir yng nghymalau 15 ac 16, rhaid i'r Preswylydd adael y Llety sy'n cynnwys dychwelyd yr allweddi i'r Llety a'r Adeiladau. Bydd unrhyw eitemau sydd ar ôl yn yr ystafell wely astudio yn cael eu storio am chwe wythnos ar ôl gadael, ac os na chânt eu hawlio o fewn yr amser hwn, cânt eu gwaredu.

## 17. DIFFYG Y CYTUNDEB TRWYDDED GAN Y PRESWYLYDD

Os bydd y Preswylydd yn torri'r Cytundeb Trwydded hwn neu heb gyflawni unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb Trwydded hwn, rhaid i'r Preswylydd dalu unrhyw gostau rhesymol a ddaw yn briodol i ran y Brifysgol wrth adfer y diffygion hyn neu mewn cysylltiad â gorfodi'r rhwymedigaethau hynny.

## 18. CWYNION

18.1 Os yw'r Preswylydd yn anhapus â phenderfyniad a wnaed gan y Brifysgol neu â'r camau a gymerwyd gan y Brifysgol ynghylch y Cytundeb a/neu os yw'r Preswylydd yn ystyried bod y Brifysgol wedi torri ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn, yn y lle cyntaf, rhaid cyfeirio unrhyw gŵyn at yr Adran Llety i ymchwilio iddi.

Os na fydd eich cwyn wedi ei datrys o hyd, mae'n bosibl rhoi gwybod am hyn trwy'r Gweithdrefnau ar gyfer Apeliadau Academaidd, Cwynion ac Achosion Eraill Myfyrwyr a geir yn Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2020/21 neu ar wefan y Brifysgol http://www.uwtsd.ac.uk/academic-office/procedures-for-academic-appeals-complaints-and- other-student-cases/. Lle bydd angen i chi lenwi Ffurflen GA5 ar gyfer Cwyn Ffurfiol.

Rhaid derbyn cwynion ffurfiol heb fod yn fwy na 1 mis ar ôl i'r weithdrefn anffurfiol ddod i ben (lle bo'n briodol) a dim mwy na 6 mis ar ôl i'r prif fater y cwynir amdano ddigwydd. Ystyrir bod cwynion ffurfiol a dderbynnir ar ôl y dyddiadau cau hyn yn ddi-amser ac efallai na fyddant yn cael eu hystyried oni bai bod tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau cryf dros pam na chodwyd y gŵyn ffurfiol yn brydlon.

18.2 I ddileu amheuaeth, os bydd y Brifysgol yn penderfynu terfynu'r Cytundeb ac nad yw'r Preswylydd yn gadael y Llety yn unol ag unrhyw rybudd a roddir, bydd gan y Brifysgol yr hawl i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y Preswylydd i adfer meddiant ar y Llety hyd yn oed os bydd Myfyriwr wedi cwyno, o bosibl, am ei phenderfyniad i derfynu'r Cytundeb.

## 19. APELIO

Os yw'r Preswylydd yn anhapus gydag unrhyw bennod a wnaed gan y Brifysgol ynghylch y Cytundeb hwn, caiff y Preswylydd apelio yn erbyn y penderfyniad yn unol â'r weithdrefn apelio sydd i'w gweld yma: http://www.uwtsd.ac.uk/academic-office/procedures-for-academic- appeals-complaints-and-other-student-cases/. Lle bydd angen i chi lenwi'r Ffurflen GA25 ar gyfer Cais i Adolygu Canlyniad Cwyn.

## 20. DIOGELU DATA

Storir y wybodaeth a gedwir ar y Cytundeb Trwydded yn rhan o gofnod y Preswylydd ar gronfa ddata. Hefyd cedwir y Cytundeb Trwydded ar ffurf cofnod papur. Cedwir a phrosesir y data yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 ac o fewn y cyfyngiadau y cytunwyd arnynt â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol. Rhennir data'r Preswylydd â'r staff yn y Brifysgol y mae angen iddynt weld y data, y staff Llety a chynghorwyr lles, (lle bo hynny'n berthnasol i ddibenion darparu Llety), a darperir gwybodaeth gyfyngedig yn ogystal i staff diogelwch at ddibenion dilysu.

## 21. EIN HATEBOLRWYDD I CHI

21.1 Os na fydd y Brifysgol yn cydymffurfio â'r Cytundeb Trwydded, bydd yn gyfrifol am y golled neu'r diffyg a ddaw i ran y Preswylydd sy'n ganlyniad rhagweladwy i dorri'r Cytundeb Trwydded hwn neu esgeulustod ar ei rhan, ond nid yw'r Brifysgol yn gyfrifol am unrhyw golled na difrod nad oes modd ei ragweld. Mae colled neu ddifrod yn rhagweladwy os oedd yn ganlyniad amlwg i dorri'r cytundeb, neu os oedd y Preswylydd a'r Brifysgol yn ei ystyried adeg llofnodi'r Cytundeb Trwydded.

21.2 Caiff y preswylydd fynediad i'r Llety ar y ddealltwriaeth ei f/bod yn gwneud hynny at ei (d)defnydd personol ei hun, a chytuna'r Preswylydd i beidio â'u defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, busnes neu ailwerthu, ac nid oes gan y Brifysgol unrhyw atebolrwydd i'r Preswylydd am unrhyw golled elw, colled busnes, tarfu ar fusnes neu gyfle busnes a gollir.

21.3 Nid yw'r Brifysgol yn eithrio ei hatebolrwydd nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ei hatebolrwydd ynghylch:

21.3.1 marwolaeth neu anaf personol a achoswyd gan esgeulustod ar ein rhan ni;

21.3.2 twyll neu gamliwio twyllodrus; neu

21.3.3 unrhyw fater na chaniateir o dan y gyfraith gyfyngu arno na'i eithrio, na cheisio cyfyngu ar ein hatebolrwydd, neu ei eithrio.

21.4 Ni all y Brifysgol dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod na lladrad a ddaw i ran y Preswylydd yn y Llety, ac eithrio yn sgil torri'r Cytundeb Trwydded hwn gan y Brifysgol neu unrhyw esgeulustod neu unrhyw beth a hepgorwyd gan y Brifysgol neu ei chyflogeion neu ei hasiantau.

## 22. RHWYMEDIGAETHAU'R BRIFYSGOL

Cytuna'r Brifysgol i logi'r Llety i'r Myfyriwr a:

22.1 Glynu wrth God Llety UUK.

22.2 Darparu’r Gwasanaethau

Y gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Tâl Preswylio yw

a) Atgyweirio’r adeilad
b) Yswiriant yr adeilad
c) Darparu cyflenwad trydan i’r ystafelloedd gwely astudio a'r mannau cyffredin
d) Gwresogi a goleuo’r ystafelloedd gwely a’r mannau cyffredin
e) Darparu dŵr tap poeth ac oer i ystafelloedd gwely astudio a mannau cyffredin
f) Gwaredu sbwriel a osodwyd gan y trigolion yn y cynwysyddion allanol priodol
g) Glanhau’n rheolaidd y mannau cyffredin
h) Mynediad i gymorth ar bob adeg gan y Staff Llety, Gweithrediadau Diogelwch a Chynnal a Chadw
i) Darparu prif wasanaeth gydag oriau agor wedi eu harddangos yn glir.

Mae gwasanaethau golchi dillad ar gael ar Gampws y Brifysgol. Nid yw’r taliadau ar gyfer gwasanaethau golchi dillad yn gynwysedig yn y rhent ac maent yn daladwy ymlaen llaw trwy gardiau talu ymlaen llaw.

Nid yw’r Brifysgol yn atebol am unrhyw fethiant neu ddiffyg yn y Gwasanaethau oni bai fod y rhain wedi eu hachosi gan esgeulustod ar ran y Brifysgol.

22.3 **Ar ddechrau’r cyfnod preswyl , i roi’r Ystafell Wely Astudio a’r mannau cyffredin a’r cynnwys yn yr amod a nodir uchod ar yr amod bod y Myfyriwr wedi rhoi gwybod am unrhyw ddiffyg ymhen 7 niwrnod ar ôl cyrraedd.**

Bydd y Brifysgol yn cyflawni unrhyw waith adfer neu ddisodli cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, yn ôl y blaenoriaethau.

22.4 Ar ôl ymchwiliad ystafell, os bydd angen i Fyfyriwr gymryd camau adfer, caiff y myfyriwr wybod ar y pryd a gynhelir ymchwiliad pellach, a chynhelir yr ymchwiliad pellach o leiaf 24 awr ar ôl rhoi’r rhybudd. Fodd bynnag, ni fydd y Brifysgol yn nodi union ddyddiad nac amser ar gyfer yr ymchwiliad dilynol hwn.

Os bydd ganddi sail resymol dros amau bod Myfyriwr wedi torri’r amodau’r hyn neu os bydd ganddi achos pryder rhesymol ynghylch iechyd a lles Myfyriwr, caiff y Brifysgol fynd i mewn i’r Llety heb roi rhybudd ymlaen llaw.

Caiff y Brifysgol fynd i mewn i adrannau cyffredin heb roi rhybudd ymlaen llaw, at bob diben rhesymol.

22.5 Peidio ag amharu ar feddiannaeth yr ystafell wely astudio gan y myfyriwr yn fwy na sydd ei angen yn rhesymol.

Fel arfer cynhelir ymchwiliadau ystafelloedd bob semester, ond efallai y'u cynhelir yn amlach os bydd gan y Brifysgol achos rhesymol dros gredu bod y Myfyriwr wedi torri un o’r amodau hyn.

22.6 **Peidio â datgelu gwybodaeth a gafwyd gan y Myfyriwr ac eithrio fel y caniateir o dan yr amodau hyn neu pan fo risg ddifrifol o niwed i’r Myfyriwr, i eraill, neu i eiddo’r Brifysgol**

O dan amod 23 mae gan y Brifysgol yr hawl i ddefnyddio data personol Myfyrwyr at bob diben ynghylch contract y myfyriwr (gan gynnwys adfer dyled, atal troseddau, mesur bodlonrwydd) neu pan fo risg ddifrifol o niwed i’r Myfyriwr, i eraill, neu i eiddo’r Brifysgol.

Mae rheolau arbennig yn berthnasol o dan y gyfraith i Fyfyrwyr sydd ag anableddau sy’n gwneud cais penodol bod gwybodaeth am eu hanabledd yn cael ei chadw’n gyfrinachol, a bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i gydymffurfio â'r rheolau hynny.

23 Mae’r myfyriwr trwy hwn yn awdurdodi’r Brifysgol i ddefnyddio ei (d)data personol at bob diben ynghylch cytundeb trwydded y myfyriwr (gan gynnwys adfer dyled, atal troseddau, mesur bodlonrwydd) neu pan fo risg ddifrifol o niwed i’r Myfyriwr, i eraill, neu i eiddo’r Brifysgol.

**ATODLEN 1**

**RHESTR TALIADAU SAFONOL**

**YMDDYGIAD**

| RHESWM | TÂL | GWEITHREDIR GAN | SYLWAD AU |
|---|---|---|---|
| Ymddygiad Amhriodol – gweler SE1 – Cod Ymddygiad Myfyriwr | £100.00 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr | |
| Diystyru amserau cyfyngu ar lefel y sŵn fel y'u nodir yn y Telerau a'r Amodau Preswylio (8.6) | £50.00 | Yr Adran Llety | Isafswm tâl am y drosedd 1af |
| Gwaredu a glanhau hylifau'r corff | £50.00 | Yr Adran Llety | |
| Heb gadw eu hystafell neu ardaloedd cymunedol mewn cyflwr derbyniol o ran glanweithdra a thaclusrwydd | £25.00 ynghyd â chostau glanhau wedi'i nodi yn y Canllaw y Fyw Preswyl | Yr Adran Llety | Isafswm tâl am y drosedd 1af, gan gynyddu £25 am bob trosedd dilynol. |
| Heb adael y neuadd breswyl a symud yr holl eiddo personol ar y dyddiad y cytunwyd arno | £50.00 | Yr Adran Llety | |
| Ymddygiad sarhaus tuag at aelodau o'r staff - SE1 – Cod Ymddygiad Myfyriwr. | £100 | Yr Adran Llety | Camau Disgyblu |
| Heb glirio sbwriel ar ôl partïon. | £100 | Yr Adran Llety | |
| Cynnal barbeciw heb y caniatâd gofynnol. | £100 | Yr Adran Llety | |

**IECHYD A DIOGELWCH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Seinio'r larwm tân yn fwriadol heb reswm dilys | Trosedd 1af - £100 a rhybudd ysgrifenedig. 2il drosedd - £150 a rhybudd ysgrifenedig. Troseddau dilynol - £200 a Chamau Disgyblu. | Yr Adran Llety | |
| Seinio'r larwm tân drwy ddefnydd esgeulus o offer trydanol. Aerosolau, ysmygu ac ati. | Trosedd 1af - £100 a rhybudd ysgrifenedig. 2il drosedd - £150 a rhybudd ysgrifenedig . Troseddau dilynol - £200 a Chamau | Yr Adran Llety | |
| Gadael Drysau Mynedfeydd Neuaddau, drysau fflatiau neu ddrysau cegin tân neu ddrysau mynedfeydd y agored led y pen heb fod neb yn goruchwylio | Trosedd 1af - rhybudd llafar. 2il drosedd - rhybudd ysgrifenedig. Troseddau dilynol - £100 y fflat a Chamau Disgyblu. | Y Swyddfa Llety/Y Swyddfa Iechyd a Diogelwch | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Camddefnyddio unrhyw offer tân, blanced tân neu synwyryddion gwres/mwg | Diffoddwr tân - £90<br>Blanced tân - £35<br><br>Trosedd Cyntaf - yn ogystal â chostau uwch a rhybudd ysgrifenedig.<br><br>Ail Trosedd - £50 yn ogystal â chostau uwch a rhybudd ysgrifenedig<br><br>Y Drydydd Trosedd - £100 yn ogystal â chostau uwch a chamau disgyblu. | Yr Adran Llety/Y Swyddfa Iechyd a Diogelwch | |
| Symud neu analluogi caefeydd drysau tân. | £50 | Yr Adran Llety/ Y Swyddfa Iechyd a Diogelwch neu'r Tîm | |
| Heb adael adeilad adeg ymadael yn achos tân. | £50 | Yr Adran Llety | |
| Gwaredu gwastraff/sbwriel yn anghywir (h.y. gadael sbwriel / gwastraff yn y coridorau, cynteddau a thaflu sbwriel allan drwy'r ffenestri) | £100 | Yr Adran Llety | |
| Gwesteion heb eu cofrestru, gweler pwynt 8.10 | £50 | Swyddfa Llety / Y Tîm Diogelwch | Y myfyriwr i fod yn gyfrifol am ddifrod a achosir gan westai |
| Cynnal cynulliadau mawr neu Bartion o fewn y bloc heb ganiatâd. | £100 | Swyddfa Llety / Y Tîm Diogelwch | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysmygu, llosgi canhwyllau neu arogladrath oddi mewn I Neuaddau Preswyl. | Trosedd 1af - £100 a rhybudd ysgrifenedig.<br><br>2il drosedd - £150 a rhybudd ysgrifenedig.<br><br>3edd drosedd - £200 a Chamau Disgyblu. | Y Swyddfa Llety / Y Tîm Diogelwch | |
| Defnyddio Offer Trydanol mewn Neuaddau nad yw wedi cael prawf POS (PAT) | £50<br>Myfyriwr i drefnu i'r eitem gael prawf offer symudol POS ( PAT) ar eu cost eu hun, neu eitem i'w tynnu allan o'r neuaddau | Y Swyddfa Llety / Y Tîm Diogelwch | |
| Peidio â chadw at Ganllawiau'r Brifysgol neu'r Llywodraeth yn ystod achos o argyfyngau Cenedlaethol / Lleol a / neu afiechyd. | £100 | Y Swyddfa Llety / Y Tîm Diogelwch | |

=

**ALLWEDDI A CHARDIAU MYNEDIAD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Colli allwedd ystafell neu heb ei dychwelyd wrth ymadael | £25.00 | Yr Adran Llety | |
| Colli carden mynediad neu heb ei dychwelyd wrth ymadael | £25.00 | Yr Adran Llety | |
| Angen i'r Tîm Diogelwch agor ystafell myfyriwr | £10 | Yr Adran Llety | |

**ANIFEILIAID ANWES**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anifeiliaid anwes yn y neuaddau | £30 | Yr Adran Llety | |

SYLWER: Y taliadau isafsymiol a godir yw'r rhain a gellir eu cynyddu yn ôl difrifoldeb ac amlder. O ran y Rhannau Cyffredin, os na ddeuir o hyd i'r troseddwr, codir tâl yn gyfartal ar holl breswylwyr y bloc neu'r fflat fel y bo'n briodol.

Fe'ch anfonebir am unrhyw ddirwyon a godir ar eich cyfrif. Fydd gennych 28 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb i ymholiad, fel arall ni fydd y ffi yn cael ei chymhwyso.

**ATODLEN 2**
**IAWNDALIA**
**DAU**

## Ystafelloedd Gwely/Astudio

| Eitem/ Gwrthrych | Tâl Eitem Newydd / Atgyweirio |
|---|---|
| Desg | £175.00 |
| Ffrâm Gwely | £100.00 |
| Pen Gwely | £50.00 |
| Matres | £95.00 |
| Cwpwrdd wrth ochr y gwely | £60.00 |
| Wardrob | £130.00 |
| Cist Ddroriau | £120.00 |
| Hysbysfwrdd | £40.00 |
| Toiled | £170.00 |
| Cawod (Gyfan) | £170.00 |
| Pen Cawod | £70.00 |
| Sinc | £80.00 |
| Drych Eillio | £50.00 |
| Drws | £200.00 |
| Clo | £80.00 |
| Ffenestr | £140.00 |
| Ffenestr (Gwydr yn Unig) | £95.00 |
| Difrod i baent wal (fesul wal) | £60.00 |
| Difrod i adeiladwaith wal (fesul wal) | £100.00 |
| Lloriau en-suite | £75.00 |
| Carped | £150.00 |

## Mannau Cyffredin

| Eitem/ Gwrthrych | Tâl Eitem Newydd / Atgyweirio |
|---|---|
| Bwrdd | £240.00 |
| Cadair | £92.00 |
| Drysau Cwpwrdd | £80.00 |
| Dreiriau Cwpwrdd | £70.00 |
| Arwyneb Cegin | £100.00 |
| Oergell | £220.00 |
| Tostiwr | £45.00 |
| Rhewgell | £220.00 |
| Microdon | £65.00 |
| Popty Safonol | £230.00 |
| Popty Pen Bwrdd | £105.00 |
| Tegell | £30.00 |
| Sinc | £130.00 |
| Bin | £40.00 |
| Drws | £200.00 |
| Clo | £60.00 |
| Ffenestr | £140.00 |
| Ffenestr (Gwydr yn Unig) | £95.00 |
| Difrod i baent - Wal (fesul wal) | £120.00 |
| Difrod i adeiladwaith - Wal (fesul wal) | £170.00 |
| Lloriau Cegin / Carped Lolfa | £200.00 |

## Offer Iechyd a Diogelwch

| Eitem/ Gwrthrych | Tâl Eitem Newydd / Atgyweirio |
|---|---|
| **Diffoddydd Tân** | £90.00 |
| **Blanced Dân** | £35.00 |
| **Drws Tân** | £270.00 |
| **Larwm Tân** | £110.00 |